**Cofnodion cyfarfod BRYS**

**25/5/23**

**Presennol: Y Cynghorwyr** Euros Roberts(Cadeirydd), Llinos Edwards (is-Gadeirydd), Huw Antur, , Alwyn E Jones, Arwel Lloyd Jones, Dewi Wyn Jones, Heledd Jones, Rhodri Jones, Huw P Roberts

Lis Puw (Clerc)

2 aelod o'r cyhoedd

**Ymddiheuriadau:** Alwyn M Roberts, Beryl Hughes Griffiths

**Ystyriwyd** cais i Ddiddymu Amod 2 (Meddiannaeth Gweithiwr Amaethyddol) o Ganiatâd Cynllunio PEN.R/1246/P dyddiedig 19/07/1973
Derwen Gam, Llanuwchllyn LL23 7UN

Rhoddodd yr aelodau o'r cyhoedd a oedd yn bresennol wybodaeth gefndirol i'r mater ar yr Agenda. Holwyd hwy ymhellach gan y Cynghorwyr.

**Cytunwyd** yn unfrydol i anfon at Barc Cenedlaethol Eryri fel a ganlyn:

> Yng nghyfarfod Cyngor Cymuned Llanuwchllyn a gynhaliwyd ar 25/5/23, trafodwyd y cais uchod yn ddwys ac yn fanwl.
>
> Penderfyniad unfrydol y Cyngor oedd y dylid cadw Amod 2 (sef Meddiannaeth Gweithiwr Amaethyddol) ar yr eiddo a adnabyddir fel Derwen Gam.
>
> Mae fferm Cilgellan mewn meddiant teulu o amaethwyr, ac mae Derwen Gam yn parhau i fod o ddefnydd potensial i fferm Cilgellan. Mae Derwen Gam yn parhau yn gysylltiedig gyda'r fferm, gan ei fod yn dibynnu ar ffynnon y fferm ac ar system garthffosaeth y fferm. Mae hyn yn cadarnhau'r berthynas annatod rhwng y ddau eiddo.
>
> Mae'r Cynghorwyr yn gryf a phendant o'r farn **y dylid CADW** Amod 2 gan fod y bwriad gwreiddiol wrth osod yr amod yn parhau yn gyfredol a hyfyw.

*Amser gorffen: 8.00pm*

Clerc: Lis Puw: 01678 540654 07896964120 cyngor-llanuwchllyn@outlook.com
Bedw Gwynion, Llanuwchllyn, Gwynedd LL23 7TW www.cynghoraupenllyncouncils.co.uk